# Mawrth

The Wildlife Trust
South and West Wales
De a Gorllewin Cymru

## Creu tomen gompost

Mae tomen gompost yn ffordd wych o gael gwared â'ch gwastraff cegin a gardd, tra'n creu bwyd ar gyfer eich gardd a chartref i fywyd gwyllt yr un pryd. Mae anifeiliaid di-asgwrn-cefn fel trychfilod a mwydod yn byw ar y deunydd sy'n pydru, fydd yn eu tro yn Neidr Ddefaid, Draenogod a Llyffantod.

1. Dewiswch lecyn heulog gan y bydd hyn yn helpu'r compost i bydru'n gynt.
2. Prynwch gynhwysydd parod neu gwnewch un allan o ddarnau o bren wedi eu hailgylchu. Ceisiwch sicrhau fod ambell fwlch i'w cael ar ochrau eich bin fydd yn caniatáu i fywyd gwyllt fel Neidr Ddefaid i gael mynd a dod. Gwnewch yn siwr fod caead arno fydd yn atal dŵr.
3. Gallwch roi unrhyw beth gwyrdd yn eich tomen gompost – chwyn, crwyn ffrwythau a llysiau, ffa coffi wedi ei falu, papur. Peidiwch â rhoi bwyd wedi ei goginio ynddo am y bydd hwnnw yn denu llygod, na llwch coed neu garthion anifail a fydd yn newid ansawdd y compost.
4. Bydd y compost yn barod pan fydd golwg brown tywyll a phriddlyd arno.

Blodyn y Gwynt

**Rheoli Dolydd**
Os oes dôl flodau gwyllt gennych wedi ei sefydlu eisoes yn ei hail flwyddyn neu'n hŷn, efallai y byddai'n syniad ei dorri i ryw 50-100mm o hyd nawr er mwyn atal gweiriau rhag tra-arglwyddiaethu.

**Planhigion sy'n blodeuo ym mis Mawrth**
Helygen Ddeilgron
Blodyn y Gwynt
Crocws

## Nodi coed yn y gwanwyn

Awgrymiadau arolwg: Edrychwch am hen ddail wrth fôn y goeden, archwiliwch y rhisgl ac edrychwch am flagur neu nodweddion eraill fel cynffonau ŵyn bach neu gonau.



Collen | Bedwen Arian | Derwen | Gwernen | Draenen Wen | Draenen Ddu

Unrhyw coed eraill: